Telerau Defnyddio'r Wefan

Trwy ddefnyddio Gwefan Atal Tân, rydych yn cytuno i gadw at delerau defnyddio'r wefan hon ("Telerau Defnyddio") ac, yn benodol, yn cytuno ac yn derbyn yr ymwadiadau a'r cyfyngiadau ar atebolrwydd sydd yn y Telerau Defnyddio hyn. Darllenwch y Telerau Defnyddio hyn yn ofalus cyn defnyddio Gwefan Atal Tân. Os nad ydych yn dymuno gorfod cadw at y Telerau Defnyddio hyn, rhowch derfyn ar eich defnydd o wefan Atal Tân ar unwaith.

Yn y Telerau Defnyddio hyn:

Ystyr "Cynnwys" yw dyluniad, testun, graffeg a deunyddiau eraill ar Wefan Atal Tân;

Ystyr "Gwefan Atal Tân" yw'r wefan sydd i'w chael ar y cyfeiriad www.ataltan.org a www.firebrake.org

Ystyr "Defnyddwyr" neu "Defnyddiwr" yw defnyddwyr Gwefan Atal Tân gyda'i gilydd a/neu'n unigol, yn ôl y cyd-destun;

Ystyr "ni" a/neu "ein" yw Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru Cyfyngedig, sef elusen wedi ei chofrestru dan y rhif 1100964, a chwmni cyfyngedig trwy warant wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr dan y rhif cwmni 4556865, gyda'i swyddfeydd ar y Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY;

Ystyr "Gwefan" yw unrhyw wefan arall ar y we fyd-eang;

"chi" a/neu "eich" yw'r sawl sy'n defnyddio Gwefan Atal Tân.

1. **Telerau Defnyddio Gwefan Atal Tân**

1.1 Byddwn yn caniatáu ichi gael mynediad i Wefan Atal Tân, ei defnyddio a rhyngweithio â hi, yn ddibynnol ar y Telerau Defnyddio hyn.

1.2 Mae gennych hawl i weld, copïo, lawrlwytho, argraffu a defnyddio'r Cynnwys ar gyfer eich defnydd personol anfasnachol chi eich hun.

1.3 Mae Gwefan Atal Tân ar gyfer defnydd personol Defnyddwyr unigol yn unig. Ni ellir ei defnyddio ar y cyd ag unrhyw ymdrechion masnachol.

1.4 **Os ydych dan 18 mlwydd oed**, rhaid ichi gael cydsyniad eich rhiant neu eich gwarcheidwad cyn defnyddio Gwefan Atal Tân a chyn darparu unrhyw wybodaeth i ni. Eich rhiant neu eich gwarcheidwad fydd yn gyfrifol am gydsynio â'r Telerau Defnyddio hyn. Efallai y bydd angen cadarnhad gan eich rhiant neu eich gwarcheidwad arnom eu bod wedi rhoi eu cydsyniad.

2. **Eich Rhwymedigaethau Chi**

2.1 Rhaid ichi beidio â:

(a) chopïo, lawrlwytho, atgynhyrchu na defnyddio'r Cynnwys neu unrhyw ran ohono mewn unrhyw fodd bynnag, heblaw am y modd a ganiateir dan baragraff 1.2;

(b) newid unrhyw ran o'r Cynnwys;

(c) gael gwared ar unrhyw nodau masnachol, hawlfraint neu unrhyw hysbysiadau eiddo deallusol neu ddyfrnodau sy'n rhan o'r Cynnwys neu o unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gopïo neu ei argraffu oddi ar Wefan Atal Tân;

(d) defnyddio Gwefan Atal Tân i gynnal unrhyw weithgareddau sy'n torri unrhyw gyfreithiau, torri ar hawliau unrhyw barti arall neu dorri unrhyw safonau neu godau a gyhoeddir gan unrhyw awdurdod perthnasol;

(e) personadu Defnyddiwr arall;

(f) amharu neu geisio amharu ar unrhyw fesurau diogelwch sy'n perthyn i Wefan Atal Tân neu'n ymwneud â hi.

2.2 Chi sy'n gyfrifol am ffurfweddu eich technoleg gwybodaeth, eich rhaglenni a'ch llwyfan cyfrifiadurol er mwyn cael mynediad i'r Cynnwys. Dylech ddefnyddio meddalwedd diogelu rhag firysau. Peidiwch â throsglwyddo ffeiliau sy'n cynnwys firysau neu raglenni niweidiol eraill.

2.3 Os ydych yn dymuno prynu nwyddau neu wasanaethau a allai, o bryd i'w gilydd, fod ar werth trwy Wefan Atal Tân, rhaid ichi ddarllen a derbyn y telerau a'r amodau perthnasol ynglŷn â gwerthiant cyn gwneud pryniant o'r fath.

2.4 Gallai rhannau o Wefan Atal Tân fod wedi eu cyfyngu i rai defnyddwyr a/neu eu diogelu gan godau a/neu gyfrineiriau adnabod defnyddwyr. Arnoch chi y mae'r cyfrifoldeb am ddiogelwch unrhyw god adnabod defnyddiwr a/neu gyfrinair ar gyfer defnyddio Gwefan Atal Tân, a rhaid ichi gadw unrhyw god adnabod defnyddiwr a/neu gyfrinair yn gyfrinachol bob amser a pheidio â'i rannu gyda neb arall na gyda defnyddwyr eraill ar rwydwaith. Rydym yn cadw'r hawl i analluogi'ch cod adnabod defnyddiwr a/neu gyfrinair unrhyw bryd yn ddirybudd, ac i ddiddymu eich hawliau mynediad os byddwch, yn ein barn ni, wedi methu cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau Defnyddio hyn.

3. Ein Rhwymedigaethau Ni

3.1 Byddwn ni'n:

(a) gwneud pob ymdrech rhesymol i arfer gofal rhesymol wrth roi'r Cynnwys ar Wefan Atal Tân;

(b) defnyddio ymdrechion rhesymol i wneud Gwefan Atal Tân ar gael;

(c) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw amhariadau ar fynediad i Wefan Atal Tân gan unrhyw ddigwyddiad sydd o fewn ein rheolaeth ni yn cael ei gyfyngu cyn lleied â phosib. Yn hyn o beth, sylwer y gallai mynediad i Wefan Atal Tân gael ei darfu am gyfnodau byr wrth i waith cynnal a chadw hanfodol a/neu ddiweddariadau i Wefan Atal Tân gael eu gwneud.

4. Eiddo Deallusol

4.1 Bydd pob hawlfraint, nodau masnachol ac unrhyw hawliau eiddo masnachol yn y Cynnwys a'r gwaith dethol neu drefnu yn eu cylch, yn aros gyda ni neu ein trwyddedwyr. Caniateir ichi ddefnyddio'r Cynnwys hwn dim ond fel yr awdurdodir yn union ym mharagraff 1.2, ac ni allwch ddefnyddio'r Cynnwys i unrhyw ddiben arall (gan gynnwys defnydd masnachol neu greu gweithiau sy'n deillio ohono) na chynorthwyo na hwyluso unrhyw drydydd parti i ddefnyddio'r Cynnwys.

4.2 Os byddwch yn dod i wybod am unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r Cynnwys, rydych yn cytuno i roi gwybod inni ar unwaith.

4.3 Ein nodau masnach ni yw ein henwau a'n harwyddeiriau, ac ni ellir eu defnyddio heb gael ein cydsyniad ysgrifenedig pendant o flaen llaw.

5. **Eich Gwarantau Chi**

5.1 Trwy ddefnyddio Gwefan Atal Tân, rydych yn maentumio ac yn gwarantu:

(a) bod gennych yr hawl a'r awdurdod angenrheidiol i ddefnyddio Gwefan Atal Tân ac i gadw at y Telerau Defnyddio hyn;

(b) bod yr holl wybodaeth a'r manylion y byddwch yn eu darparu i ni yn wir, yn gywir ac yn gyfoes ymhob agwedd a phob amser; ac y

(c) byddwch yn cydymffurfio â'r Telerau Defnyddio hyn, gan gynnwys, heb derfyn, y cyfyngiadau sy'n ymwneud â defnydd derbyniol sydd ym mharagraff 1 uchod, a'ch rhwymedigaethau sydd ym mharagraff 2.

5.2 Rydych yn cytuno i'n digolledu ac i'n rhyddarbed rhag, ac yn erbyn, unrhyw honiadau, hawliadau, camau, achosion, colledion, iawndaliadau, treuliau, costau (gan gynnwys, yn ddiderfyn, gostau cyfreithiol) ac unrhyw rwymedigaethau eraill a geir mewn cysylltiad â'ch defnydd o Wefan Atal Tân, neu sy'n ymwneud â'ch defnydd neu sy'n codi o ganlyniad i'ch defnydd, unrhyw dorri neu amheuaeth o dorri'r Telerau Defnyddio gennych chi neu dorri unrhyw gyfraith neu fynd yn erbyn hawliau unrhyw drydydd parti.

6. **Cyfyngiadau ac Eithriadau i Rwymedigaethau**

6.1 Cyn belled ag y caniateir gan y gyfraith, nid ydym yn gwneud unrhyw faentumion neu sicrwydd, boed yn glir neu trwy awgrym, mewn perthynas â Gwefan Atal Tân neu'r Cynnwys, heb unrhyw derfyn mewn perthynas â chywirdeb, amseriad, dibynadwyedd, cyflawnder neu addasrwydd i unrhyw ddiben, unrhyw wybodaeth neu ddatganiadau sydd arni, neu gyngor a barn a roddir gan Ddefnyddwyr ar Wefan Atal Tân. Gallai fod yn y Cynnwys gamgymeriadau neu wallau teipio. Fe allai rhannau o'r Cynnwys fod yn hen, ac nid ydym yn gwneud unrhyw ymrwymiad i ddiweddaru deunydd o'r fath. Fe allem wneud newidiadau i'r Cynnwys unrhyw bryd yn ddirybudd.

6.2 Nid ydym yn sicrhau nac yn maentumio:

(a) bod mynediad i Wefan Atal Tân, neu unrhyw ran ohoni, ar gael yn ddi-dor, dibynadwy neu ddi-gamgymeriad; neu

(b) bod Gwefan Atal Tân yn rhydd o firysau neu namau..

6.3 Rydym yn gwrthod, cyn belled ag y caniateir hynny gan y gyfraith, unrhyw a phob atebolrwydd sy'n codi o ganlyniad i:

(a) unrhyw anghywirdeb, gwallau neu gamgymeriadau technegol, ffeithiol, testunol neu deipio ar Wefan Atal Tân neu'r Cynnwys, neu mewn perthynas â hwy;

(b) Gwefan Atal Tân (neu unrhyw ran ohoni) heb fod ar gael;

(c) unrhyw anwiredd ar Wefan Atal Tân neu'r Cynnwys, neu'n mewn perthynas â hwy (heblaw am anwiredd twyllodrus a wneir gennym ni neu ar ein rhan).

6.4 NI FYDDWN NI, NA'R UN O'N CYFARWYDDWYR, GWEITHWYR NEU UNRHYW GYNRYCHIOLWYR ERAILL, YN ATEBOL, BOED MEWN CYTUNDEB, CAMWEDD, ESGEULUSTOD NEU FEL ARALL, AM BA GOLLED NEU DDIFROD BYNNAG, BOED YN UNIONGYRCHOL NEU'N ANUNIONGYRCHOL, SY'N CODI O GANLYNIAD I, NEU MEWN PERTHYNAS Â, EICH DEFNYDD O WEFAN ATAL TÂN A/NEU EICH DIBYNIAETH AR UNRHYW GYNNWYS, YN YMWNEUD, HEB DERFYN, Â DIFROD I FEDDALWEDD NEU GALEDWEDD, COLLED ECONOMAIDD, COLLI DATA, COLLED NEU DDIFROD WEDI HYNNY, COLLED NEU DDIFROD I BERSON NEU EIDDO, A HAWLIADAU TRYDYDD PARTÏON.

6.5 Nid bwriad yr un o'r eithriadau a'r cyfyngiadau ar atebolrwydd yn y Telerau Defnyddio hyn yw cyfyngu ar, neu eithrio, unrhyw hawliau y gallai fod gennych fel defnyddiwr, neu hawliau statudol eraill na ellir cyfyngu arnynt, nac ychwaith eithrio neu gyfyngu ar ein hatebolrwydd ni i chi am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod.

6.6 Dehonglir pob un o'r eithriadau a'r cyfyngiadau ar atebolrwydd uchod fel darpariaeth wahanol a thoradwy o'r Telerau Defnyddio hyn.

7. Gwefannau Trydydd Partïon

7.1 O bryd i'w gilydd, fe allai dolenni fod ar gael o Wefan Atal Tân i Wefannau trydydd partïon. Ni fyddwn yn atebol, mewn unrhyw fodd, am argaeledd gwefan o'r fath nac unrhyw gynnwys, hysbysebion, nwyddau neu wasanaethau ar, neu ar gael ar, Wefannau o'r fath, ac nid ydym yn gwneud unrhyw faentumion, sicrwydd, argymhellion neu gefnogaeth mewn cysylltiad â hynny. Os byddwch yn cytuno i fynd ar Wefannau unrhyw drydydd partïon, byddwch yn gwneud hynny ar eich menter eich hun.

7.2 Os hoffech greu dolen i Wefan Atal Tân, gallwch gysylltu â ni ar info@firebrake.org i ofyn am ddolen.

7.3 Ni allwch ond creu dolen i Wefan Atal Tân ar y sail y byddwch yn cysylltu â thudalen gartref Gwefan Atal Tân, ac yn ddibynnol ar yr amodau canlynol, sef:

(a) nad ydych yn creu unrhyw ffrâm neu unrhyw borwr neu forder arall o gwmpas Gwefan Atal Tân;

(b) nid ydych yn awgrymu, mewn unrhyw ffordd, eich bod yn cefnogi unrhyw gynnyrch neu wasanaethau gwahanol i'n rhai ni;

(c) nid ydych yn cam-faentumio eich perthynas gyda ni, nac yn cyflwyno unrhyw wybodaeth ffug arall amdanom;

(d) nid ydych yn defnyddio unrhyw un o'n nodau masnach neu arwyddluniau nac unrhyw eiddo deallusol arall a ddangosir ar Wefan Atal Tân heb gael ein caniatâd ysgrifenedig pendant ni;

(e) nid ydych yn creu dolen o Wefan nad yw'n eiddo i chi; ac

(f) nad oes, ar eich Gwefan, gynnwys neu ddeunydd difrïol, di-chwaeth, sarhaus neu ddadleuol, sy'n torri ar unrhyw hawliau eiddo deallusol neu hawliau eraill unrhyw drydydd parti neu fel arall, nad yw'n cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau sy'n berthnasol.

7.4 Rydym yn cadw'r hawl i ddiddymu'r hawl a roddir ym mharagraff 7.3 uchod os torrir y Telerau Defnyddio hyn, yn wirioneddol neu os amheuir hynny, ac i gymryd unrhyw

gamau yr ystyriwn yn angenrheidiol, gan gynnwys tynnu unrhyw ddolen rhwng Gwefan Atal Tân a'ch Gwefan chi.

8. **Deunyddiau ac Ymddygiad Ymwelwyr**

8.1 Mae ein Polisi Rheoli Gwybodaeth yn cael eu hymgorffori yn y Telerau Defnyddio hyn. Mae'n nodi gwybodaeth am ein defnydd o wybodaeth bersonol ynglŷn â chi a gesglir o ganlyniad i'ch defnydd o Wefan Atal Tân.

8.2 Heblaw am wybodaeth bersonol sy'n dod o dan ein Polisi Rheoli Gwybodaeth, ystyrir nad yw unrhyw ddeunydd a drosglwyddir neu a osodir gennych chi ar Wefan Atal Tân yn ddeunydd cyfrinachol a heb berchennog, ac na fydd gennym unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â deunydd o'r fath. Byddwn ni, ac eraill a awdurdodir gennym, yn rhydd i gopïo, datgelu, dosbarthu, ymgorffori a defnyddio, fel arall, ddeunydd o'r fath, a phob data, delwedd, sain, testun a phethau eraill sy'n rhan ohono, a hynny at unrhyw neu bob diben masnachol neu anfasnachol.

8.3 Gwaherddir chi rhag gosod neu drosglwyddo i, neu oddi ar, Wefan Atal Tân, unrhyw ddeunydd:

(a) sy'n fygythiol, difrïol, sarhaus, pornograffig, terfysglyd, ddifenwol, sy'n gallu ennyn casineb hiliol, camwahaniaethol, bygythiol, llidus, cableddus, sy'n torri cyfrinachedd a/neu breifatrwydd, neu a allai achosi blinder neu anghyfleuster; neu

(b) nad oes gennych y cydsyniadau a/neu gymeradwyaethau angenrheidiol ar ei gyfer; neu

(c) sy'n cynnwys neu'n annog ymddygiad a fyddai, neu y gellid ei ystyried, yn drosedd, yn achosi atebolrwydd sifil, neu fel arall, yn torri ar hawliau unrhyw drydydd parti; neu

(d) sydd yn niweidiol yn dechnegol (gan gynnwys, heb derfyn, firysau cyfrifiadurol, 'mwydod', data llygredig, neu feddalwedd neu ddata niweidiol arall).

8.4 Byddwn yn llwyr gydymffurfio ag unrhyw awdurdodau gorfodi'r gyfraith neu orchmynion llys sy'n gofyn inni, neu'n ein cyfarwyddo ni, i ddatgelu enw neu leoliad unrhyw un sy'n gosod deunydd sy'n torri paragraff 8.3 uchod.

8.5 Rydym yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw ddeunyddiau a osodir ar Wefan Atal Tân, neu a drosglwyddir iddi, os nad yw deunydd o'r fath, yn ein tyb ni, yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Telerau Defnyddio.

9. **Newidiadau i'r Telerau Defnyddio**

Rydym yn cadw'r hawl, ar unrhyw bryd ac yn ddirybudd, i ddiwygio, newid, addasu a/neu ddiweddaru'r Cynnwys a'r Telerau Defnyddio hyn. Rydych yn cytuno bod wedi'ch rhwymo wrth unrhyw ddiwygiadau, newidiadau, addasiadau a diweddariadau. Trwy barhau i ddefnyddio Gwefan Atal Tân wedi i unrhyw ddiwygiadau, newidiadau, addasiadau neu ddiweddariadau i'r Telerau Defnyddio gael eu gosod, byddwch yn arwyddo eich bod yn cytuno i fod wedi'ch rhwymo wrth y Telerau Defnyddio sydd wedi'u diwygio, eu newid, eu haddasu neu eu diweddaru. Dylech adolygu'r Telerau Defnyddio hyn o bryd i'w gilydd er mwyn gwirio'r fersiwn gyfredol o'r Telerau Defnyddio sydd yn eich rhwymo.

10. **Cyffredinol**

10.1 Os oes unrhyw lys yn dal bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau Defnyddio hyn yn ddi-rym neu'n anorfod, bydd yn cael ei ddileu, a bydd y darpariaethau sy'n weddill yn parhau mewn grym llwyr.

10.2 Llywodraethir a dehonglir y Telerau Defnyddio hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, ac rydych yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth echgynhwysol llysoedd Cymru a Lloegr.

10.3 Ni fyddwn yn atebol am unrhyw achos lle bo Wefan Atal Tân neu unrhyw Gynnwys yn methu, neu lle bod mynediad iddynt yn cael ei rwystro neu ei derfynu oherwydd digwyddiad *force majeure*. Bydd digwyddiad *force majeure* yn cynnwys, heb derfyn, fethiant mewn isadeiledd, ymyriad llywodraeth, rhyfeloedd, cynnwrf sifil, herwgipio, tân, llifogydd, stormydd, streiciau, cau allan, ymosodiadau terfysgol, neu weithredu diwydiannol sy'n effeithio arnom ni neu ein cyflenwyr.

11. **Adborth a Chwynion**

Os oes gennych unrhyw gwynion ynglŷn ag unrhyw agwedd ar Wefan Atal Tân neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech ddarparu unrhyw adborth, gallwch gysylltu â ni ar trwy anfon e-bost i: info@firebrake.org <mailto:info@firebrake.org>.